



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

**Amcangyfrif Ariannol**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**2022-2025**

## **Cyflwyniad**

Fel Comisiynydd, fi yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac felly mae gofyn i mi gyflwyno cyllideb flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 9(2) o Atodlen 1 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys amcangyfrif o'r gwariant ar sail adnoddau a'r cyllid arian parod y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn i mi gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Ers sefydlu fy swyddfa yn 2008, rwyf wedi gallu cadw a rheoli cronfeydd wrth gefn yn annibynnol. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi chwarae rhan bwysig yn fy null rheoli ariannol cyffredinol ac maent wedi bod yn rhan annatod o gynnal fy strwythur sefydliadol presennol a chyflawni fy Nghynllun Strategol yn llwyddiannus. Maent wedi fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol, sicrhau parhad busnes a'r gallu i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau nad oedd modd eu rhagweld.

Yn ystod 2021-22, yn unol â chyrrff cyhoeddus eraill gan gynnwys cyrrff eraill y Comisiynydd, mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo fy swyddfa i gyllidebu adnoddau, sydd wedi cael gwared ar fy ngallu i reoli a defnyddio fy arian wrth gefn yn annibynnol. Mae hyn yn golygu na allaf reoli risgiau ariannol tymor canolig yn annibynnol mwyach a byddaf yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae'r Amcangyfrif ar gyfer 2022-23 wedi cael ei ddatgelu ar sail adnoddau ac arian parod yn Atodiad A. Rwyf hefyd wedi darparu gofyniad adnoddau ac arian dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod i hwyluso proses cynllunio cyllidebol Llywodraeth Cymru.

## **Fy nghylch gwaith fel Comisiynydd**

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny
- Hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn
- Annog ymarfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru
- Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

## **Sut ydw i'n defnyddio fy nyraniad cyllid ar gyfer 2021-22 yn effeithiol**

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar bobl hŷn ar draws Cymru, ac mae wedi tynnu sylw at yr angen am amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi adferiad pobl hŷn a chyflawni newid tymor hwy i wella eu bywydau, fel y nodir yn fy adroddiad Gadael Neb ar ôl a'r Manifesto ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2021.

Gan chwarae fy rhan i sbarduno a chyflawni newid i bobl hŷn, rwyf wedi bwrw ymlaen â rhaglen waith helaeth yn ystod 2021-22, gan ganolbwyntio ar fy nhair prif flaenoriaeth, yn ogystal ag amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn:

### **Rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn**

- Gwella gwasanaethau cymorth i bobl sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, a chodi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer cyrff cyhoeddus.
- Arwain gwaith partneriaeth gyda'r Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin, gan gynnwys:
  - Dylanwadu ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin.
  - Gweithio i rymuso a galluogi pobl hŷn i rannu eu profiadau.
  - Ymchwil i brofiadau dynion hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n cael eu cam-drin.
  - Datblygu gwaith ar bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, y mae cam-drin yn effeithio arnynt

### **Galluogi pawb i heneiddio'n dda**

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl hŷn yn cael cymorth i ailadeiladu neu adfer eu hiechyd a'u llesiant, wrth i ni symud drwy'r pandemig.
- Arwain gwaith gyda phartneriaid ledled Cymru i wneud cymunedau'n fwy ystyriol o oedran, gan gynnwys cefnogi awdurdodau lleol i wneud cais am gydnabyddiaeth Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer cymunedau sy'n ystyriol o oedran.
- Hyrwyddo cynhwysiant digidol ymysg pobl hŷn, hyrwyddo arferion da a chyhoeddi canllawiau i gyrrff cyhoeddus, i sicrhau bod pobl hŷn nad ydynt ar-lein yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

### **Rhoi diwedd ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oed**

- Hyfforddiant i bobl hŷn a gweithwyr proffesiynol i'w grymuso i adnabod a herio rhagfarn ar sail oedran.
- Herio enghreifftiau o ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, gan gynnwys y ffordd mae pobl hŷn yn cael eu portreadu yn y cyfryngau.

- Gweithio gyda phartneriaid – gan gynnwys partneriaid rhyngwladol – i fynd i'r afael ag agweddau o oedraniaeth mewn cymdeithas a hyrwyddo undod rhwng cenedlaethau.

### Diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn

- Gweithredu gyda phartneriaid yng Nghymru a ledled y DU i wella hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal
- Datblygu gwaith fydd yn mynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth ar y materion penodol a wynebwr gan bobl hŷn mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, drwy wneud gwaith ymchwil ac argymhellion ar gyfer gweithredu
- Archwilio sut y gellid gwella proses ac ymarfer Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw er mwyn i bobl hŷn deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd yn y dyfodol, a bod eu dymuniadau'n cael eu cydnabod a'u parchu.
- Parhau i weithio gyda rhwydwaith y DU o sefydliadau partner allweddol a sefydlwyd gennyf yn 2020, i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo, a gyda'i gilydd yn sbarduno newid.

Rwyf wedi cyhoeddi fy adroddiad ar Gyflwr y Genedl 2021, sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth eang o ddata, tystiolaeth ac ymchwil i roi trosolwg manwl o brofiadau pobl o fynd yn hŷn yng Nghymru, ac i asesu sut mae pethau wedi newid ers cyhoeddi fy adroddiad ar Gyflwr y Genedl diwethaf ym mis Hydref 2019..

Mae fy nhîm a minnau'n parhau i fonitro a chraffu ar y camau a'r penderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae ymgysylltu â phobl hŷn hefyd yn parhau i fod yn ffocws allweddol i mi a fy nhîm yn 2021-22, i sicrhau bod eu lleisiau, eu safbwyntiau a'u profiadau yn llywio fy ngwaith.

### Cyngor a Chefnogaeth

Mae fy mhwerau o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn caniatáu i mi roi cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn, a ddarperir drwy fy nhîm cyngor a chefnogaeth, sy'n cynnwys 1.8 aelod o staff FTE gyda chymorth rheolwr llinell ychwanegol. Mae'r tîm gwaith achos yn rhoi gwybodaeth, cymorth ac arweiniad i rymuso pobl hŷn a'u teuluoedd a'u helpu i ddeall eu hawliau a'u hawlio.

Mae'r cymorth a ddarperir yn galluogi pobl hŷn a'u teuluoedd i herio penderfyniadau ac arferion gwasanaethau a chyrff cyhoeddus, ac mae'r tîm yn gallu gweithio eu ffordd drwy systemau, polisïau a phrosesau, sy'n aml yn rhai cymhleth, a hynny yn yr amgylchiadau mwyaf anodd a gofidus yn aml. Mewn rhai achosion, mae'r tîm yn ymyrryd ar ran person hŷn (yn amodol ar ei ganiatâd).

Er bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn cysylltu â'm swyddfa ynghylch ystod eang o faterion, yn hanesyddol mae'r materion mwyaf cyffredin yn ymwneud â gwasanaethau iechyd, tai, gofal a diogelu, a cham-drin.

Mae nifer yr achosion, gyda chymariaethau ar gyfer blynyddoedd blaenorol, wedi'u nodi isod ac maen nhw'n tynnu sylw at gynnydd pellach yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth, cefnogaeth neu wybodaeth gennyf.

2018-19	418
2019-20	563
2020-21	643
2021-22 (hyd at 30/09)	293

Er bod y tîm wedi delio'n effeithiol â'r cynnydd yn nifer a chymhlethdod yr ymholiadau a dderbyniwyd, mae adnoddau'n dal i gael eu hymestyn ac mae aelodau eraill o'r tîm ehangach wedi gorfod rhoi cymorth, sydd wedi effeithio ar elfennau craidd eraill sydd i'w cyflawni. Rwyf hefyd wedi datblygu sylfaen dystiolaeth ac wedi nodi meysydd lle gellid gwella'r gwasanaeth cyngor a chymorth ymhellach. Fodd bynnag, oni bai fod adnoddau cyllidebol rheolaidd ychwanegol yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, ni fyddaf yn gallu rhoi'r cynlluniau hyn ar waith a pharhau i gefnogi'n effeithiol y nifer cynyddol o bobl hyn yng Nghymru.

## Atodiad A

### Amcangyfrif Blynyddol 2022-25

#### Cyllideb referniw

Disgrifiad	Amcangyfrif 2022-23 (£)	Amcangyfrif 2023-24*(£)	Amcangyfrif 2024-25*(£)
<b>Gwariant:</b>			
Costau cyflogaeth <sup>2</sup>	1,220,000	1,261,000	1,292,000
Costau llety <sup>3</sup>	145,000	147,000	149,000
Cyfarpar TG a chynnal a chadw <sup>6</sup>	75,000	87,000	80,000
Gwasanaethau a ffioedd proffesiynol <sup>8</sup>	67,000	69,000	70,000
Costau rhedeg eraill <sup>9</sup>	26,000	24,000	28,000
Dibrisiant/amorteiddio <sup>7</sup>	18,000	16,000	15,000
Rhaglen waith <sup>10</sup>	80,000	80,000	80,000
Cyllid ar gyfer y Rhaglen Waith Ychwanegol <sup>11</sup>	43,000	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
<b>Cyfanswm Gwariant ar Adnoddau</b>	<b>1,674,000</b>	<b>1,684,000</b>	<b>1,714,000</b>

\*Ffigurau dangosol yn unig

## Cyllideb arian parod

Disgrifiad	Amcangyfrif 2022-23 (£)	Amcangyfrif 2023-24* (£)	Amcangyfrif 2024-25* (£)
<b>Gwariant:</b>			
Costau cyflogaeth <sup>2</sup>	1,220,000	1,261,000	1,292,000
Costau llety <sup>3</sup>	145,000	147,000	149,000
Cyfarpar TG a chynnal a chadw <sup>6</sup>	75,000	87,000	80,000
Gwasanaethau a ffioedd proffesiynol <sup>8</sup>	67,000	69,000	70,000
Costau rhedeg eraill <sup>9</sup>	26,000	24,000	28,000
Rhaglen waith <sup>10</sup>	80,000	80,000	80,000
Cyllid ar gyfer y rhaglen waith ychwanegol	43,000	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Gwariant Cyfalaf	10,000 <sup>6</sup>	200,000 <sup>3</sup>	0
Rhyddhau'r ddarpariaeth ddadfeiliad <sup>4</sup>	-	88,000	-
<b>Gofyniad Arian Parod</b>	<b>1,666,000</b>	<b>1,956,000</b>	<b>1,699,000</b>

\*Ffigurau dangosol yn unig

Nodiadau:

## **1 Chwyddiant**

Roedd cyfradd chwyddiant 12 mis y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 3.1% ym mis Medi 2021.

Dros y 18 mis diwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi methu ymgysylltu â phobl hŷn wyneb yn wyneb, ac oherwydd hynny rydyn ni wedi llwyddo i arbed costau mewn meysydd fel teithio ac argraffu. Defnyddiwyd yr arbedion hyn i ymdopi ag unrhyw bwysau chwyddiant sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, wrth i fy ngwariant ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig, ni fyddaf yn gallu parhau i ymdopi â'r pwysau chwyddiant hyn.

Nid yw fy nghyllideb wedi cael ei chynyddu i gyfrif am chwyddiant ers 2016 ac mae chwyddiant wedi bod yn 2.7% y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad termau real mewn pŵer gwario o 10% dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ôl Dadansoddiad Cyllidol Cymru a gynhaliwyd gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, dros yr un cyfnod mae cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 6% mewn termau real a rhagwelir y bydd yn cynyddu yn 2022-23 mewn termau real o 2.1%.

Mae'r Amcangyfrif hwn yn dangos nad yw'n gynaliadwy mwyach i'm cyllid aros ar ei lefel bresennol. Rwyf wedi adolygu fy nghynllun ariannol tymor canolig ac wedi nodi arbedion lle bo hynny'n bosibl; fodd bynnag, rwyf wedi cyfrifo er mwyn i'r sefydliad aros yn sefydlog a pharhau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn a sicrhau newid effeithiol, mae angen i mi gynyddu fy nghyllideb sylfaenol.

## **2 Costau cyflogaeth**

Mae gallu cadw a recriwtio staff profiadol yn hanfodol i sicrhau bod fy ngwaith yn parhau i gael effaith ar bobl hŷn.

Ers 2017, mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan fy swyddfa wedi bod yn 20.57 ar gyfartaledd, ac mae'n 20.64 o bobl ar hyn o bryd. Mae costau staff yn cyfrif am 75% o'm gwariant, ac mae costau cyffredinol wedi cynyddu 3% y flwyddyn ar gyfartaledd yn hanesyddol, oherwydd ffactorau fel cynnydd mewn costau byw a chodiadau bandiau cynyddrannol. Cyn hyn, rwyf wedi gallu ymgorffori'r pwysau cost hyn yn fy nyraniad cyllid statig a rheoli'r risg o unrhyw orwariant posibl yn erbyn dyraniad Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio fy arian wrth gefn. Fodd bynnag, ni fydd modd rheoli hyn dros yr hirdymor.

Gan nad yw fy dyraniad cyllid wedi cynyddu ers 2016 ac na allaf gadw na defnyddio cronfeydd wrth gefn mwyach, nid wyf mewn sefyllfa mwyach i gynnal strwythur presennol fy sefydliad. Os na fydd fy nyraniad cyllid rheolaidd yn cynyddu, byddaf yn cael fy ngorfodi i adolygu a lleihau nifer y staff yr wyf yn eu cyflogi, a fydd yn cael effaith sylweddol ar fy ngallu i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol.

I ddibenion cyllidebu yn unig, gwnaed tybiaeth i ganiatáu codiad cyflog blynyddol o 2% mewn costau cyflogi o 2021-22 ymlaen. Bydd y cynnydd terfynol yn dibynnu ar



chwyddiant a chost dyfarniadau byw a wneir gan gyrff tebyg. Bydd y canlyniad greu pwysau pellach ar y gyllideb. Rhaid nodi, mae'r pwyntiau cyflog y gallaf fforddio eu cynnig i staff yn is na Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill y Comisiynydd.

Mae cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth Ganolog ynghylch cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr o 1.25% wedi cynyddu fy mil cyflog cyffredinol o £10,000 y flwyddyn ar gyfartaledd, sydd wedi cael ei ymgorffori yn fy nghyllid ond sy'n creu pwysau pellach ar fy nghyllideb.

### **3 Costau llety**

Mae costau llety a swyddfa'n cynnwys gwariant ar rent, tâl gwasanaeth, trethi, diogelwch, cyfleustodau ac yswiriant.

Oherwydd gostyngiad mewn cyllid yn 2016-17, fe wnaeth y Comisiynydd blaenorol leihau gwariant drwy gynnal adolygiad manwl o strwythur a model gweithredu'r sefydliad; un o brif effeithiau'r adolygiad hwn oedd gostyngiad yn nifer y staff o WTE o 28.26 o weithwyr yn 2015-16 i 19.40 yn 2016-17, mae fy lefelau staffio WTE i wedi bod yn 20.57 ar gyfartaledd ers 2017. Mae'r cwtogiad hwn yn nifer y staff yn naturiol wedi arwain at ostyngiad yn faint o ofod swyddfa sydd ei angen.

Yn nechrau 2020, mi wnes i adolygu fy narpariaeth swyddfa presennol a'r gofynion swyddfa yn y dyfodol a dod i'r canlyniad y dylwn i gael gwared ar 25% o fy ôl troed llety presennol ac ymrwymo i les hirach er mwyn sicrhau arbedion sylweddol o ran costau.

Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi gorfodi newid mewn arferion gweithio gan fod pob aelod o staff bellach yn gweithio gartref. Mae'r newid gorfodol wedi gwneud i ni adolygu ac ailystyried y cynnig gwreiddiol. Ym mis Hydref 2020, penderfynodd fy Nhîm Rheoli Busnes a mi, ynghyd â fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, na fyddai o ddiddordeb i'r sefydliad i ymrwymo i les swyddfa hirdymor neu derfynu'r les yn llwyr heb fod â sylfaen dystiolaeth ddigonol o ran arferion gweithio i wneud y penderfyniad.

Ym mis Medi 2021, fe wnes i lansio cyfnod o ymgynghori â staff ar bolisi gweithio hybrid newydd. Rhagwelir y bydd lansio'r polisi hwn yn ffurfiol yn arwain at ostyngiad parhaol yn nifer y staff sy'n defnyddio ein swyddfa'n rheolaidd.

Yn ystod 2022, byddaf yn nodi tystiolaeth ar gyfer datblygu achos busnes a fydd yn amlinellu ein gofynion o ran llety yn y dyfodol a'r gofod sydd ei angen yn y dyfodol. Bydd yr achos busnes hwn yn cyfiawnhau'r buddsoddiad cychwynnol ac yn dangos sut y sicrhau elw ar fuddsoddiad drwy wireddu arbedion ar rent, tâl gwasanaeth a threthi dros gyfnod o bum mlynedd.

Gan seilio amcangyfrif ar gyllideb a ddarparwyd gan Syrfewyr Meintiau yn 2020, rwy'n rhagweld y bydd symud swyddfa yn costio tua £200,000 gan gynnwys ffioedd proffesiynol ac unrhyw drethi sy'n ddyledus. Byddaf yn gofyn yn ffurfiol am gymeradwyaeth i gyllid ariannol ac anariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2022-23 ar gyfer 2023-24 ymlaen.

#### **4 Dadfeiliad prydles**

Yn fy Natganiad o'r Sefyllfa Ariannol, rwyf wedi sefydlu darpariaeth ar gyfer ffi am ddadfeilio sy'n ymwneud â'm prydles yn Adeiladau Cambrian. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei chrisialu ym mis Awst 2023. Er nad wyf yn rhagweld y bydd angen cyllideb adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth dadfeilio hon, byddaf angen yr adnodd arian Cymorth Grant ychwanegol o £88,000 gan Lywodraeth Cymru.

#### **5 Effaith 'IFRS 16 – Prydlesi' ar gyflwyno Amcangyfrif y Comisiynydd**

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd IFRS 16 – Prydlesi, ac mae mewn grym ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar 1 Ebrill 2022 neu ar ôl hynny. Mae gen i un les weithredol faterol ar gyfer llety a allai gael ei heffeithio gan y safon hwn. Gan na fydd y balans contract sy'n weddill sy'n daladwy ar y les hon yn amlwg ar 31 Mawrth 2023, nid wyf yn bwriadu symud i'r safon hon ym mis Ebrill 2022. Fodd bynnag, unwaith y bydd fy les llety newydd wedi cael ei thrafod, bydd yn cael ei thrin yn unol ag IFRS16.

#### **6 Cyfarpar TG a chynnal a chadw**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod yn adolygu ac yn buddsoddi mewn cryfhau cadernid seiber y sefydliad. Mae'r buddsoddiad hwn, a fydd yn parhau, wedi costio'n sylweddol a rhagwelir y bydd fy ngwariant ar TG yn 2021-22 yn £76,000, sy'n 23% yn uwch nag yn 2020-21. Er mwyn i mi ddiogelu fy seilwaith TG yn ddigonol rhag y bygythiad sylweddol uwch o ymosodiadau seiber, rwy'n rhagweld y bydd costau TG yn parhau i gynyddu a bydd yn bwysau sylweddol ar fy nghyllideb.

Mae gen i gynllun TG i'r tymor canolig fydd yn cynnal y systemau presennol i'r dyfodol ar sail newid a gwaith cynnal a chadw brys a hanfodol, ac sy'n seiliedig ar anghenion busnes hanfodol a chynnydd o ran gofynion TG a diogelu data.

Rydw i'n parhau i fuddsoddi mewn uwchraddio'r seilwaith TG, i sicrhau bod y system yn aros yn effeithlon ac yn wydn rhag bygythiadau allanol. Yn unol ag adolygiad gan fy narparwr TG, rwyf wedi cael cyngor i newid y gweinydd presennol yn 2022-23 a defnyddio gweinydd yn y cwmwl. Mae'r costau cyfalaf hyn wedi cael eu cydnabod yn y tabl cyllideb arian parod yn Atodiad A ac mae'r costau hyn wedi cael eu hamorteiddio dros gyfnod o bum mlynedd.

Yn ystod 2020-21, mae fy systemau TG wedi cael eu dilysu'n annibynnol ac mae sicrwydd wedi cael ei roi bod y systemau'n cydymffurfio â'r Cynllun Cyber Essentials Plus. Byddant yn cael eu hailasesu yn gynnar yn 2022.

#### **7 Gwefan**

Rwyf hefyd wedi adolygu fy ngwefan ac wedi dod i'r casgliad bod angen ei haildylunio er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Rhaglenni Symudol) (Rhif 2) 2018.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r gyllideb Cyfalaf ar gyfer y gwaith hwn ac wedi cymeradwyo'r gyllideb adnoddau amorteiddio o £11,000 y flwyddyn tan fis Mawrth 2027 i wneud y gwaith hanfodol hwn. Mae'r amorteiddiad yn cael ei gydnabod o dan gostau dibrisiant/amorteiddiad yn nhabl y gyllideb refeniw ar dudalen 6.

## **8 Gwasanaethau a ffioedd proffesiynol**

Mae'r pennawd hwn hefyd yn cynnwys gwariant ar weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth a sgiliau arbenigol nad wyf yn eu cadw'n fewnol.

Yn hanesyddol, mae gwariant ffioedd proffesiynol, yn enwedig costau cyfreithiol, wedi amrywio. Fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, mae hyn oherwydd y bydd angen i mi weithredu ar unrhyw faterion pwysig, brys ac annisgwyl sy'n dod i'm sylw. Mae'r maes cyllideb hwn yn cynnwys llinellau gwariant mwy sefydlog fel ffioedd archwilio, costau cyfieithu a monitro gwleidyddiaeth a chyfryngau. Rydw i'n rhagweld cyllideb sefydlog dros y tymor canolig gydag unrhyw orwariant yn cael ei ariannu gan arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb.

## **9 Costau rhedeg eraill**

Mae costau rhedeg eraill yn cynnwys defnyddiau traul swyddfa fel argraffu, ffonau, deunyddiau swyddfa a phostio. Rydw i wedi mabwysiadu dull gweithredu darbodus ar gyfer caffael deunyddiau traul i'r swyddfa a bydd yn parhau i chwilio am arbedion yn y maes hwn.

Rydw i'n manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol lle mae hynny'n ymarferol.

## **10 Rhaglen waith**

Ar ôl adolygu'r gwariant blaenorol sy'n gysylltiedig â chyflawni fy rhaglen waith, rwyf wedi nodi y bydd angen £80,000 y flwyddyn arnaf i barhau i'w chyflawni. Bydd y gyllideb hon yn caniatáu i mi gasglu tystiolaeth, gwneud gwaith ymchwil a chyhoeddi a hyrwyddo canfyddiadau a chyfarwyddyd. Byddaf yn dyrannu'r gyllideb i weithio ar sail ddewisol a bydd yn cael ei defnyddio i gyflawni fy nyletswyddau statudol ac i helpu i ddarparu fy Nghynllun Strategol.

## **11 Cyllid ar gyfer y rhaglen waith ychwanegol**

- **Ymchwil i brofiadau dynion hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig neu sydd mewn perygl o hynny.**

Rwyf wrthi'n comisiynu ymchwil a fydd yn edrych ar brofiadau dynion hŷn o gam-drin domestig a'r rhwystrau a allai eu hatal rhag gofyn am gymorth a chefnogaeth yng Nghymru

Mae'r gwaith hwn wedi'i restru ar Gwerthwchi Gymru gyda chyllideb o £36,000. Oherwydd y pwysau cyllidebol a nodwyd, yn 2022-23 byddwn yn croesawu'r cyfle i ofyn am gyllideb adnoddau ychwanegol ar gyfer 2022-23 i ariannu 50% o'r gwaith

ymchwil hwn ac, os bydd angen, gallaf gyflwyno cynnig ar wahân i gefnogi'r hawliad cyllidebol hwn.

- **Ymchwil i brofiadau go iawn pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru**

Ar hyn o bryd rwy'n cynllunio maes gwaith i ddeall yn well y profiad go iawn o heneiddio yng Nghymru o safbwynt pobl hŷn o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Rwyf eisiau dathlu'r agweddau cadarnhaol yn ogystal â deall y materion sy'n effeithio ar eu bywydau a thynnu sylw at unrhyw feysydd lle gallai fod angen newid.

Bydd y sylfaen dystiolaeth hwn yn datblygu gwaith fydd yn mynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth ar y materion penodol a wynebir gan bobl hŷn mewn cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, drwy wneud gwaith ymchwil ac argymhellion ar gyfer gweithredu

Fel y nodir uchod, byddwn yn croesawu'r cyfle i ofyn am gyllideb adnoddau ychwanegol ar gyfer 2022-23 i ariannu'r gwaith ymchwil hwn ac, os bydd angen, gallaf gyflwyno cynnig ar wahân i gefnogi'r hawliad cyllidebol hwn. Rwyf wedi cynnwys cyllideb o £25,000 ar gyfer 2022-23 ar gyfer y gwaith hwn.